

Eich hawliau pan mae eich babi yn cael ei eni



Ar gyfer rhieni ag anabledd dysgu

Mae'r llyfryn yma yn dweud wrthy ch chi beth mae'r gyfraith yn ei ddweud am eich hawliau



Sut i ddefnyddio'r llyfryn hwn



Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y llyfryn yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu.

Mae rhai geiriau yn anodd i'w deall efallai. Maen nhw mewn **ysgrifen glas clir** ac maen nhw wedi cael eu hesbonio yn y blwch o dan y gair.

Os ydy unrhyw un o'r geiriau yn cael eu defnyddio eto yn y llyfryn maen nhw'n cael eu dangos mewn **ysgrifen glas normal**. Os ydych yn gweld geiriau mewn **ysgrifen glas normal**, ewch i'r **Geiriau anodd** ar dudalen 15 i weld beth maen nhw'n feddwl.



Cafodd y llyfryn yma ei wneud yn hawdd ei ddeall ar gyfer y Rhwydwaith Gweithio ar y Cyd gyda Rhieni gan Anabledd Dysgu Cymru gan ddefnyddio Photosymbols.

Mae'r llyfryn yma yn rhan o set o 4 llyfryn am eich hawliau fel rhiant:



Llyfryn 1 — Eich hawliau pan rydych chi'n feichiog



Llyfryn 2 — Eich hawliau pan mae eich babi yn cael ei eni



Llyfryn 3 — Eich hawliau gyda gwasanaethau cymdeithasol



Llyfryn 4 — Eich hawliau pan mae eich plentyn yn cael ei gymryd

I gael rhagor o gopïau o unrhyw un o'r llyfrynnau yma cysylltwch gyda Samantha Williams, Cydlynnydd Polisi a Rhwydwaith:



Ffôn: 029 2068 1160

E-bost: samantha.williams@ldw.org.uk



Gwefan: www.adcymru.org.uk/prosiectau/prosiectau-cyfredol/gweithio-ar-y-cyd-gyda-rhieni

Sut i ddefnyddio'r llyfryn hwn	2
Cyfraith Ewropeaidd ar hawliau dynol.....	5
Eich hawl i ddewis sut i eni eich babi	5
Eich hawl i wybodaeth sydd yn hawdd i chi ei deall.....	6
Eich hawl i ofal iechyd da	7
Hawl i help gyda phoen	7
Epidiwrwl	7
Torriad Cesaraidd.....	8
Eich hawl i benderfynu ar eich triniaeth iechyd	9
Eich hawl i ddweud na	10
Help gyda geni	11
Defnyddio gefeiliau	12
Beth i'w wneud pan nad ydy eich hawliau'n cael eu cadw.....	13
Geiriau anodd	15


Cyfraith Ewropeaidd ar hawliau dynol



Mae'r holl hawliau yn y llyfryn yma yn dod o'r gyfraith Ewropeaidd ar hawliau dynol.



Mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i'r bobl sydd yn eich cefnogi gadw eich hawliau dynol.



Mae yna wahanol rannau i'r gyfraith o'r enw **Erthyglau**.

Mae **Erthyglau** yn rhan o ddeddf. Mae gan yr Erthyglau rifau felly rydych chi'n gwybod pa Erthygl sydd yn rhoi'r hawliau i chi.

Eich hawl i ddewis sut i eni eich babi



Mae **Erthygl** 8 yn dweud bod gennych hawl i fywyd preifat a bywyd teulu rydych chi'n ei ddewis.



Mae hefyd yn dweud bod gennych hawl i wneud penderfyniadau am eich corff.

Eich hawl i wybodaeth sydd yn hawdd i chi ei deall



Mae **Erthygl** 14 yn dweud bod gennych hawl i gael eich trin yn deg.



Rhaid i bob menyw gael eu trin yn deg gan staff iechyd pan maen nhw'n feichiog.



Mae hyn yn golygu bod rhaid i wybodaeth gael ei rhoi yn y ffordd orau chi ei deall. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth yn Gymraeg.



Rhaid i staff iechyd roi'r holl amser rydych ei angen i ofyn cwestiynau

Rhaid iddyn nhw roi'r gefnogaeth rydych chi ei angen.



Mae gan dad eich babi yr hawl yma hefyd.

Eich hawl i ofal iechyd da

Hawl i help gyda phoen



Mae geni babi yn boenus.



Rydych chi'n gallu cael meddyginiaethau sydd yn gwneud geni yn llai poenus

Mae **Erthygl 3** yn rhoi'r hawl yma i chi.

Epidiwral



Epidiwral ydy meddyginiaeth i wneud i'r poen fynd i ffwrdd. Mae tiwb yn cael ei roi yn eich cefn. Mae'r meddyginiaeth yn mynd trwy'r tiwb i'ch corff.

Dim ond ar rai adegau y mae **epidiwral** yn ddiogel pan rydych yn geni.



Mae staff iechyd yn gallu gwrthod ei roi **epidiwral** i chi pan maen nhw'n meddwl nad ydy e'n ddiogel.

Rhaid iddyn nhw esbonio'n glir i chi pam nad ydy e'n ddiogel.



Pan mae'n bosibl rhaid iddyn nhw gynnig rhywbeth arall i chi i helpu gyda'r poen.

Toriad Cesaraidd



Toriad Cesaraidd ydy llawdriniaeth i dynnu'r babi o'ch bol.



Does gennych chi **ddim** hawl i doriad **Cesaraidd**. Dim ond pan mae angen un y byddwch yn ei gael.



Os ydych yn gofyn am doriad **Cesaraidd** fe fydd rhaid i chi weld staff sydd yn gweithio mewn iechedd meddwl.

Fe fyddan nhw'n siarad gyda chi am pam rydych eisiau toriad **Cesaraidd**.



Efallai bydd staff iechedd yn ceisio darganfod meddyg i wneud toriad **Cesaraidd** os ydych eisiau un. Ond does dim rhaid iddyn nhw wneud hynny.

Eich hawl i benderfynu ar eich triniaeth iechyd

Gallwch benderfynu:



- sut mae staff iechyd yn cadw golwg ar sut rydych chi
- pa beiriannau sy'n cael eu defnyddio i weld sut rydych chi
- os ydy staff iechyd yn gallu edrych y tu mewn i chi.



Efallai y bydd staff iechyd eisiau gwneud gwahanol driniaethau pan rydych yn geni.



Mae **Erthygl 8** yn dweud bod gennych hawl i ddewis pa driniaethau rydych eisiau.



Dylech gael yr wybodaeth am driniaethau mewn ffordd rydych chi'n gallu ei ddeall.



Mae'r gyfraith yn dweud eich bod yn gallu dewis geni heb unrhyw help gan staff iechyd.

Ond efallai y bydd staff iechyd yn meddwl nad ydy hynny'n ddiogel i'ch babi.



Efallai y byddan nhw'n gofyn i'r gwasanaethau cymdeithasol edrych os ydych chi'n rhiant da.

Eich hawl i ddweud na



Mae gennych hawl i ddweud **na** i unrhyw driniaeth mae staff iechyd eisiau ei roi i chi.

Ond mae staff iechyd yn gallu penderfynu **peidio** â gwrando os:



- **nad** oes gennych y **gallu**.



Mae'r **gallu** yn ymwneud â medru gwneud eich penderfyniadau eich hun. Os **nad** ydych chi'n cael y gallu, dydych chi **ddim** yn medru gwneud penderfyniadau neu ddewis eich hun.

- mae'n argyfwng ac rydych yn rhy sâl i gytuno i driniaeth.

Help gyda geni



Weithiau efallai bod gennych broblemau iechyd sydd yn gallu effeithio ar eich babi.

Os ydy hyn yn digwydd efallai y bydd y staff eisiau **ysgogi** eich babi.



Mae **ysgogi** yn meddwl bod staff iechyd yn rhoi meddyginiaethau i chi i roi cychwyn ar y geni.

Rhaid i staff iechyd esbonio'n glir pam eu bod eisiau **ysgogi** eich babi.



Rhaid iddyn nhw ddweud y pethau da a drwg sydd yn gallu digwydd os ydych chi'n dewis peidio gadael iddyn nhw **ysgogi** eich babi.



Mae **Erthygl 8** yn dweud bod gennych hawl i ddweud **na** i gael eich **ysgogi**.

Rydych yn gallu dweud na hyd yn oed os ydy staff iechyd yn meddwl y gall fod yn beryglus i chi ac i'r babi .

Defnyddio gefeiliau



Pâr mawr o efeiliau ydy **gefeiliau**. Maen nhw'n cael eu defnyddio weithiau i gael y babi allan.

Efallai na fydd eich babi yn dod allan ohonoch yn hawdd.



Efalli y bydd staff iechyd eisiau defnyddio **gefeiliau** i helpu eich babi i ddod allan.



Rhaid i staff iechyd esbonio'n glir pam maen nhw eisiau defnyddio **gefeiliau**.

Rhaid iddyn nhw ddweud wrthyh chi y pethau da a drwg am ddefnyddio **gefeiliau**.

Mae **Erthygl** 8 yn dweud bod gennych hawl i ddweud **na** i **efeiliau**.



Rhaid i staff iechyd dderbyn beth rydych chi'n ei ddweud.

Os ydych yn dweud na i **efeiliau**, rhaid iddyn nhw ddarganfod ffordd arall i helpu'r babi i ddod allan.

Beth i'w wneud pan nad ydy eich hawliau'n cael eu cadw



Mae cadw eich hawliau pan rydych yn geni yn rhan bwysig o'r gyfraith.



Os ydych yn teimlo **nad** ydy eich hawliau wedi cael eu cadw efallai y byddwch yn gallu mynd â'r staff iechyd i'r llys.



Fe fydd rhaid i chi dalu i **gyfreithiwr** arbennig wneud hyn.

Cyfreithiwr ydy rhywun sydd wedi'u hyfforddi i ddeall y gyfraith.



Mae gennych hawl i gwyno am beth wnaeth y staff iechyd.



Mae **eiriolydd** yn gallu eich helpu gyda hyn.

Eiriolydd ydy person sydd yn siarad drosoch chi neu yn eich helpu i siarad drosoch eich hun.



Gallwch gwyno wrth eich Cyngor Iechyd Cymuned lleol. Mae yna 7 Cyngor Iechyd Cymuned yng Nghymru.

Mae staff iechyd yn gallu dweud wrthych chi sut i gysylltu gyda'ch Cyngor Iechyd Cymuned.



Fe fydd y Cyngor Iechyd Cymuned yn eich helpu gyda'ch cwyn.

Geiriau anodd

Cyfreithiwr

Cyfreithiwr ydy rhywun sydd wedi'u hyfforddi i ddeall y gyfraith.

Eiriolydd

Eiriolydd ydy person sydd yn siarad drosoch chi neu yn eich helpu i siarad drosoch eich hun.

Epidiwr

Epidiwr ydy meddyginiaeth i wneud i'r poen fynd i ffwrdd. Mae tiwb yn cael ei roi yn eich cefn. Mae'r meddyginiaeth yn mynd trwy'r tiwb i'ch corff.

Erthyglau

Mae Erthyglau yn rhan o ddeddf. Mae gan yr Erthyglau rifau felly rydych chi'n gwybod pa Erthygl sydd yn rhoi'r hawliau i chi.

Gallu

Mae'r gallu yn ymwneud â medru gwneud eich penderfyniadau eich hun. Os **nad** ydych chi'n cael y gallu, dydych chi **ddim** yn medru gwneud penderfyniadau neu ddewis eich hun.

Gefeiliau

Pâr mawr o efeiliau ydy gefeiliau. Maen nhw'n cael eu defnyddio weithiau i gael y babi allan.

Toriad Cesaraidd

Toriad Cesaraidd ydy llawdriniaeth i dynnu'r babi o'ch bol.

Ysgogi

Mae ysgogi yn meddwl bod staff iechyd yn rhoi meddyginiaethau i chi i roi cychwyn ar y geni.